# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Mercher, 24 Ebrill 2019

**YN BRESENNOL:** M.A. Morgan (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
M. Dodd, D. Evans, J. James a A. Williams;

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey, R. James a G.B. Thomas;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin: 2.00 yp - 2.30 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Tref P. Rogers.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION - 15 MAWRTH 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**
**3.1 llofnodi cofnodion y cyfarfod ar 15 Mawrth 2019 gan eu bod yn gywir;**
**3.2 o ran Cofnod 5 – Hyfforddiant Cod Ymddygiad – bod sesiynau'n cael eu cynnal yn y lle cyntaf yn Llanelli ar 10 Gorffennaf 2019, ac yng Nghaerfyrddin ar 16 Gorffennaf 2019.**

**4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD CHRISTOPHER MARK DAVIES**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Christopher Mark Davies o Gyngor Tref Sanclêr am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad yn unig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Tref Sanclêr.
Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Davies fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(ix)(ee) o'r Côd Ymddygiad gan ei fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth.
Roedd buddiant y Cynghorydd Davies hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod y ffeithiau perthnasol, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.
Gan hynny, roedd y Cynghorydd Davies wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.
Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor y dylai, wrth ystyried y cais, nodi mai paragraffau 2 (d) a (f) oedd y rhesymau mwyaf priodol pe byddai'r Pwyllgor am gymeradwyo'r cais i siarad yn unig.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Christopher Mark Davies SIARAD yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Sanclêr mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Tref Sanclêr a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd ei dymor presennol yn y swydd.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM EDMUND VINCENT JOHN DAVIES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd William Edmund Vincent John Davies o Gyngor Tref Sanclêr, am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad yn unig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Tref Sanclêr.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Davies fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(ix)(ee) o'r Côd Ymddygiad gan ei fod yn aelod o'r Ymddiriedolaeth.

Roedd buddiant y Cynghorydd Davies hefyd yn rhagfarnol, gan y byddai aelod o'r cyhoedd, o wybod y ffeithiau perthnasol, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Davies wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Pwyllgor y dylai, wrth ystyried y cais, nodi mai paragraffau 2 (d) a (f) oedd y rhesymau mwyaf priodol pe byddai'r Pwyllgor am gymeradwyo'r cais i siarad yn unig.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd William Edmund Vincent John Davies SIARAD yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Sanclêr mewn perthynas â materion yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Tref Sanclêr a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd ei dymor presennol yn y swydd.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL

Ni chafwyd dim eitemau brys i'w hystyried.

| | |
|---|---|
| ______________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |